Page

# Cynllun grantiau bach newydd er mwyn darganfod treftadaeth gymunedol yng Nghymru

18/09/2020



Cerflun o Billy y morlo ym Mharc Victoria, Caerdydd

Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Cadw – y corff hanes amgylcheddol, wedi dod at eu gilydd i gefnogi prosiectau sydd yn cysylltu cymunedau gyda'u treftadaeth lleol.

Mae Treftadaeth 15 Munud yn cynnig **grantiau o £3,000 - £10,000** i brosiectau sydd yn cofnodi hanes pobl gyda adeiladau, henebion, tirweddau a pharciau o fewn 15 munud o'u stepen drws.

Medd Andrew White, Cyfarwyddwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru:
"Rydym ni yn y Gronfa wastad wedi pwysleisio y gellir diffinio treftadaeth mewn sawl ffordd wahanol – gall fod yn adeilad, yn dirnod, yn warchodfa natur neu hyd yn oed eich siop leol. Maen nhw i gyd yn chwarae rhan yn y gwaith o greu a llunio ein cymunedau ac yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar gymdeithas heddiw."

"Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a'r bartneriaeth hon gyda Cadw, bydd pobl yn cael cyfle i warchod eu hatgofion o'u tirwedd leol a'u cadw'n fyw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weld syniadau pobl a'u helpu i'w gwireddu."

# Beth fyddwn yn ei ariannu

Dylai pawb sydd yn gwneud cais anelu tuag at ysbrydoli pobl i edrych yn agosach ar lefydd a lleoliadau yn eu milltir sgwâr.

Mae gennym ddiddordeb mewn prosiectau sydd yn dehongli treftadaeth mewn ffyrdd amrywiol – er enghraifft rhwng cenedlaethau, grwpiau ethnig neu grwpiau diddordeb arbennig.

Gall gweithgareddau gynnwys:

- creu llwybrau beicio neu gerdded
- murluniau new arddangosfeydd ffenestri
- creu adnoddau digidol megis mapiau rhyngweithiol, fideos, arddangosfeydd neu bodlediadau
- darnau o waith megis placiau neu baneli dehongli deuniadol



Seindorfa Parc Victoria, Caerdydd

## Pwy sydd yn gymwys

Mi fydd y gronfa yn cefnogi:

- prosiectau wedi eu harwain gan awdurdodau lleol a chyrff o’r trydydd sector
- cyrff sydd yn gofalu am atyniadau treftadaeth yng Nghymru, gan gynnwys rhai nid-er-elw
- gall perchnogion treftadaeth breifat wneud cais cyn belled bod modd cael mynediad i’r gweithgareddau rheini yn rhad ac am ddim
- hoffem annog grwpiau cymunedol nad ydynt wedi eu seilio mewn treftadaeth i gymryd rhan ac i ddadansoddi eu dehongliad o dreftadaeth

## Sut i ymgeisio

**14 Hydref 2020** yw’r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau a mae’n rhaid i’r prosiectau fod wedi eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2021.

Darllenwch yn meini prawf a’r canllawiau cyn gwneud cais trwy ein porth os y gwelwch yn dda.

## Treftadaeth 15 Munud

Mae’r pandemig (COVID-19) coronafeirws wedi bod yn brofiad heriol i bawb a mae hefyd wedi rhoi mwy o werthfawrogiad i bob un ohonom ni o'r amgylchedd lleol sy’n agos at adref.

Bydd nifer ohonom hefyd wedi mwynhau ail-ddarganfod llwybrau natur oedd wedi hen fynd yn angof neu ymweld â thirnodau lleol. Bwriad Treftadaeth 15 Munud sicrhau bod y profiadau hyn yn cael eu cofnodi ar gyfer y dyfodol.

## rdeb hefyd mewn ...

### [Ein cefnogaeth i'r sector treftadaeth mewn ymateb i argyfwng coronafeirws (COVID-]



### [Cyhoeddi cyllid newydd ar gyfer prosiectau amgylcheddol mewn cymunedau yng]



**Cymorth ariannol Cronfa Argyfwng Treftadaeth i Gwrt Insole**